

Cylchlythyr Llyfrgelloedd Conwy


ymlacio **read**
dysgu **explore**
darllen **learn**

Rhifyn 5 – Hydref 2020

Yn y rhifyn hwn:

- Rhestr fer Gwobr Booker
- Ymweliadau Rhithiol
- Llyfr y Mis
- Mis Hanes Pobl Dduon
- Awgrymiadau Arswydus
- Dewis Staff
- Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth
- Wythnos Genedlaethol Llyfrgelloedd

RHESTR FER GWOBR BOOKER



Beth am fod yn flaengar a darllen drwy Restr Fer Gwobr Booker cyn i'r enillydd gael ei gyhoeddi'r mis nesaf?

Gallwch archebu'r llyfrau hyn a mwy drwy ein catalog ar-lein!


Ymweliadau Rhithiol Staff y Llyfrgell i'w Gwyllo a'u Rhannu!

Er mwyn dathlu Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth, mae Morag o Lyfrgell Bae Colwyn yn darllen y gerdd gyntaf erioed iddi ei dysgu yn yr ysgol...



Cliciwch yma i wylio "The Puddock"

Llyfr y Mis



AR GAEL RŴAN



Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio a darganfod

Conwy County, the right environment to live, work and discover

MIS HANES POBL DDUON

Yn ystod mis Hydref, rydym yn dathlu Mis Hanes Pobl Dduon, gyda sylw arbennig i straeon a storiwyr o gymunedau Affricanaidd a Charibiaidd yn y DU, Iwerddon ac o bob cwr o'r byd. Mwynhewch y detholiad arbennig ar Borrowbox i ddathlu ac anrhydeddu Hanes Pobl Dduon ar hyd y flwyddyn.



AWGRYMIADAU ARSWYDUS

Mentwch agor y cloriau brawychus yma ar Galan Gaeaf – maen nhw'n siŵr o godi ofn!



ymlacio **read**
dysgu **explore**
darllen **learn**






DEWIS STAFF!

'Autumn' gan **Ali Smith** wedi ei ddewis gan Georgia o Lyfrgell Conwy!

"Hon yw'r gyntaf o'i phedwarawd tymhorol, a hon yw'r fwyaf hygyrch eto gan Ali Smith. Roeddwn i wrth fy modd gyda datblygiad perthynas Elizabeth a Daniel dros y blynyddoedd. Nofel sy'n llawn gwleidyddiaeth a chelf, bendigedig. Edrych ymlaen at ddarllen y nesaf yn y gyfres"

Rhowch '**Autumn**' ar archeb o'ch llyfrgell leol neu gyda'ch cerdyn llyfrgell ar Borrowbox ac RBDigital!







PETHAU I GADW LLYGAD AMDANYNT...

- Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth
- Wythnos Genedlaethol Llyfrgelloedd
- Crefftau Calan Gaeaf
- Mis Hanes Pobl Dduon – casgliad arbennig ar BorrowBox
- Dathlu popeth iasol o gartref!
- Eleni mae "Poe Fest" ar-lein ac ar gael i bawb

DIWRNOD CENEDLAETHOL BARDDONIAETH

Eleni, fe wnaethom ni ddathlu Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth ar y we, drwy rannu ein hoff gerddi!

Ydych chi'n gweld rhai o'ch hoff gyfrolau chi?




UCHAFBWYNTIAU WYTHNOS GENEDLAETHOL LLYFRGELLOEDD

Eleni, dathlwyd Wythnos Genedlaethol Llyfrgelloedd (5-10 Hydref) ar y we!

Roedd ein dathliadau yn cynnwys aelodau staff yn ymuno ag #DymaFySilff, adborth hyfryd am y llyfrgell, rhoi copi am ddim o Salt Path AC aelodau staff yn gwisgo fel cymeriad o lyfr a ddylanwadodd ar eu byd!

Dim ond rhai yn unig o'n huchafbwyntiau yn ystod wythnos Genedlaethol Llyfrgelloedd 2020:



“
You
choose books better than
we choose them ourselves.
It is like Christmas”
- Llandudno Library User
CONWY LIBRARIES
CALL & COLLECT SERVICE
CONWY



DARLEN YN WELL I BLANT

Mae Darllen yn Well I blant yn argymhell darllen i'ch helpu i ddeall eich teimladau ac ymdopi gydag amser anodd.

Dewiswyd y llyfrau gan blant, gofalwyr, arbenigwyr iechyd a llyfrgellwyr. Gallwch ddod o hyd i'r llyfrau yn eich llyfrgell. Gallwch lawrlwytho canllaw i'r llyfrau ar y rhestr ar –

reading-well.org.uk/plant

